

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru

Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

30 Hydref 2024 i 31 Mawrth 2025

Rhagarweiniad

Derbyniodd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ei Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 24 Ebrill 2024

Roedd yr Hysbysiad yn manylu ar ddyletswydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru i fodloni'r safonau a nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a benderfynwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny. Rydym yn rhannu ac yn cefnogi gweledigaethau 4 awdurdod lleol Rhanbarth De-orllewin Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y mae eu harweinwyr yn aelodau o'r cyd-bwyllgor corfforedig, ac sydd â'u Strategaethau Hyrwyddo'r Gymraeg eu hunain. Bydd gwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ym meysydd cynllunio datblygu strategol, cynllunio trafnidiaeth ranbarthol, a lles economaidd yn helpu i greu'r seilwaith ranbarthol a'r amodau economaidd-gymdeithasol a fydd yn cyfrannu at lwyddiant strategaeth pob awdurdod i hyrwyddo'r iaith yn ei ardal ddaearyddol ei hunan

Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n cynnwys 'Cymru lewyrchus', 'Cymru fwy cyfartal' a 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', sy'n pwysleisio arwyddocâd datblygiad economaidd a ffyniant i hirhoedledd a bywiogrwydd y Gymraeg a'r cymunedau (boed yn ddaearyddol, sectoraidd, neu'n rhithwir) sy'n ei defnyddio.

Yn ogystal â hyn, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi ymrwymo i nodau ac amcanion strategaethau a pholisïau eraill, megis 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr⁴' (miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a 'TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg⁵', sydd wedi'u cynllunio i gryfhau seilwaith ieithyddol Cymru a helpu'r iaith i fynd o nerth i nerth.

Fel cyd-bwyllgor corfforedig, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn sefydliad cymharol ifanc, ac ar hyn o bryd nid oes ganddo unrhyw staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofynion statudol sy'n cael eu bodloni gan gytundebau lefel gwasanaeth rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a'r awdurdodau lleol cyfansoddol priodol ac yn unol â hynny mae'n defnyddio eu rheolau sefydlog a'u polisïau mewn perthynas â meysydd fel recriwtio a gofynion polisi.

Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru sydd â'r atebolrwydd cyffredinol dros y Gymraeg o fewn Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Caiff hyn ei gyflawni ar sail cylchdro gan Brif Weithredwr yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Y Prif Weithredwr ar gyfer y cyfnod sy'n cwmpasu'r adroddiad hwn yw Wendy Walters, Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin.

Adrodd

Dyma adroddiad cyntaf Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ar Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ers iddo gael ei hysbysiad cydymffurfio terfynol ar 24 Ebrill 2024 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 30 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025.

Mae'r adroddiad hwn yn ofynnol yn ôl Safonau 158 a 164 ac mae'n nodi sut mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi cydymffurfio â'r Safonau Atodol canlynol:

- Safonau Darparu Gwasanaethau
- Safonau Gweithredol
- Safonau Llunio Polisïau

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol fel a ganlyn:

- Nifer y staff sydd â Sgiliau Cymraeg (Safonau 151)
- Nifer y staff a fynychodd y cyrsiau hyfforddiant a restrir yn Safonau 128 os cawsant eu cynnig yn Gymraeg (Safon 152)
- Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a gafodd eu categorio fel swyddi lle (i) mae sgiliau yn y Gymraeg i fod yn hanfodol; (ii) mae'n angenrheidiol dysgu sgiliau yn yr iaith Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (iii) mae sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) lle nad oedd angen sgiliau yn yr iaith Gymraeg (Safon 154)
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (Safon 150)

Nifer y staff sydd â Sgiliau Cymraeg (Safonau 151)	Amh. Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Mae'r holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol yn cael eu darparu trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Felly, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn alinio ei ofynion o ran y Gymraeg â'r safonau a'r arferion a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau hynny. Mae'r dull hwn yn
--	--



	sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn Safonau'r Gymraeg pob Awdurdod Cyfansoddol.
Nifer y staff a fynychodd y cyrsiau hyfforddiant a restrir yn Safonau 128 os cawsant eu cynnig yn Gymraeg (Safon 152)	Amh. Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Mae'r holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol yn cael eu darparu trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Felly, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn alinio ei ofynion o ran y Gymraeg â'r safonau a'r arferion a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau hynny. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn Safonau'r Gymraeg pob Awdurdod Cyfansoddol.
Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle (i) mae sgiliau yn y Gymraeg i fod yn hanfodol; (ii) mae'n angenrheidiol dysgu sgiliau yn yr iaith Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (iii) mae sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) lle nad oedd angen sgiliau yn yr iaith Gymraeg (Safon 154)	Amh. Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Mae'r holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol yn cael eu darparu trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Felly, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn alinio ei ofynion o ran y Gymraeg â'r safonau a'r arferion a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau hynny. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn

	Safonau'r Gymraeg pob Awdurdod Cyfansoddol.
Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Safon 150)	0

Gosod y Safonau

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu cyfnod o bum mis calendr ar ôl gweithredu Safonau'r Gymraeg ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

O ystyried yr amserlen fer, y prif ffocws yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn oedd datblygu Cynllun Gweithredu cynhwysfawr i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r holl safonau a nodwyd.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi'r camau sydd eu hangen i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru gyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n nodi meysydd cyfrifoldeb allweddol, amserlenni ar gyfer gweithredu, a mecanweithiau ar gyfer monitro cynnydd. Mae'r gwaith paratoi hwn yn hanfodol i ymgorffori'r Gymraeg yng ngweithrediadau a gwasanaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, gan sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei gyflawni mewn modd strwythuredig a chynaliadwy.

Er nad yw'r adroddiad hwn eto yn adlewyrchu cyflawniad gweithredol llawn y safonau, mae'n dangos ymrwymiad Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru i gydymffurfio a'i ymagwedd ragweithiol wrth gynllunio ar gyfer integreiddio'r Gymraeg ar draws pob swyddogaeth.

Cyf	Maes Gweithredu	Cam Cydymffurfio	Swyddog Cyfrifol	Terfyn Amser	Cynnydd
1	Llywodraethu a Goruchwyllo	Penodi Arweinydd Cydymffurfio â'r Gymraeg	Prif Weithredwr	Ar unwaith	Wedi'i gwblhau. Mae Pennaeth Polisi a Gweinyddu Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn ymgymryd â'r rôl hon
2	Llywodraethu a Goruchwyllo	Trefnu cyfarfodydd cynnydd misol	Prif Weithredwr	Ar unwaith	Wedi'i gwblhau. Mae Bwrdd Rhaglen Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyfarfod bob chwarter ac mae unrhyw faterion perthnasol yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwnnw.
3	Cyfathrebu	Archwilio/diweddaru templedi gohebiaeth i gynnwys fersiynau Cymraeg	Prif Weithredwr	30/10/2024	Wedi'i gwblhau
4	Cyfathrebu	Hyfforddi staff i ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg	Prif Weithredwr	30/10/2024	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Mae'r holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol yn cael eu darparu trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Felly, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn alinio ei ofynion o ran y Gymraeg â'r safonau a'r arferion a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau hynny. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn Safonau'r Gymraeg pob Awdurdod Cyfansoddol.
5	Cyfathrebu	Ychwanegu datganiad croeso Cymraeg i'r holl ohebiaeth/cyhoeddiadau	Prif Weithredwr	30/10/2024	Wedi'i gwblhau
6	Gwasanaethau Ffôn	Diweddarau sgriptiau galwadau ar gyfer cyfarchion Cymraeg a gwybodaeth am y gwasanaeth	Prif Weithredwr	30/10/2024	Wedi'i gwblhau

7	Gwasanaethau Ffôn	Hyfforddi staff i drosglwyddo/ymdrin â galwadau Cymraeg	Prif Weithredwr	30/10/2024	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Mae'r holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol yn cael eu darparu trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Felly, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn alinio ei ofynion o ran y Gymraeg â'r safonau a'r arferion a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau hynny. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn Safonau'r Gymraeg pob Awdurdod Cyfansoddol.
8	Cyfarfodydd a Digwyddiadau	Diweddarau gwahoddiadau i ofyn am ddewis Cymraeg	Swyddog Monitro	30/10/2024	Wedi'i gwblhau
9	Cyfarfodydd a Digwyddiadau	Trefnu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd yn ôl yr angen	Swyddog Monitro	30/10/2024	Wedi'i gwblhau
10	Cyhoeddusrwydd a Dogfennau	Archwilio'r holl ddogfennau/ffurflenni/deunyddiau cyhoeddus; cynhyrchu fersiynau Cymraeg	Prif Weithredwr	30/10/2024	Wedi'i gwblhau
11	Gwasanaethau Digidol	Diweddarau'r wefan/mewnrwyd ar gyfer ymarferoldeb llawn yn y Gymraeg	Prif Weithredwr	30/10/2024	Wedi'i gwblhau
12	Derbynfeydd a Grantiau	Arddangos arwyddion croesawu Cymraeg mewn derbynfeydd	Prif Weithredwr	30/10/2024	Nid oes gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru unrhyw safleoedd ffisegol.
13	Tendrau a Chontractau	Cyhoeddi gwahoddiadau i dendro yn Gymraeg	Prif Weithredwr	30/10/2024	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn ymgymryd ag unrhyw ymarferion tendro ac mae'n defnyddio Cyngor Sir Caerfyrddin at y dibenion hyn ac mae'n dilyn Safonau Iaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin.

14	Polisiau Mewnol	Datblygu/cyhoeddi polisi iaith Gymraeg mewnol	Prif Weithredwr	30/10/2024	Wedi'i gwblhau ac ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
15	Hyfforddiant a Datblygu	Asesu sgiliau Cymraeg yr holl staff	Prif Weithredwr	30/10/2024	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Mae'r holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol yn cael eu darparu trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Felly, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn alinio ei ofynion o ran y Gymraeg â'r safonau a'r arferion a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau hynny. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn Safonau'r Gymraeg pob Awdurdod Cyfansoddol.
16	Recriwtio	Asesu gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer pob swydd	Prif Weithredwr	30/10/2024	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Mae'r holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol yn cael eu darparu trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Felly, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn alinio ei ofynion o ran y Gymraeg â'r safonau a'r arferion a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau hynny. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn Safonau'r Gymraeg pob Awdurdod Cyfansoddol.

17	Cadw Cofnodion ac Adrodd	Sefydlu systemau i gofnodi cwynion, sgiliau, hyfforddiant, categori'r swydd	Prif Weithredwr	30/10/2024	Wedi'i gwblhau. Mae'r gofrestr hon yn cael ei chadw gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â chwynion.
18	Camau Atodol	Cyhoeddi dogfennau cydymffurfio, gweithdrefnau cwyno, trefniadau	Prif Weithredwr	30/10/2024	Wedi'i gwblhau. Mae'r dogfennau ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.
19	Monitro ac Adolygu	Cynnal adolygiadau chwarterol o statws cydymffurfio	Prif Weithredwr	Chwarterol	Wedi'i gwblhau. Mae Bwrdd Rhaglen Cyd- bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cyfarfod bob chwarter ac mae unrhyw faterion perthnasol yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwnnw lle bo hynny'n briodol.